**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 20fed Mehefin, 2016 at 10.30 am**

**PRESENT:** County Councillors: D. Edwards

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors D. Evans and P. Jordan

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Doedd dim datganiadau i fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2016 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **Adroddiad Panel Dyfarnu Cymru**

Fe dderbyniom adroddiad er mwyn cynghori aelodau'r Pwyllgor Safonau o benderfyniad diweddar Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Paul Cawley o Gyngor Cymunedol Magwyr a Gwyndy.

Argymhellwyd bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r adroddiad atodedig ar benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru yn atodiad 1 o'r adroddiad.

Yn ystod y trafodaethau, fe nodom y pwyntiau canlynol:

Roedd yn ddefnyddiol gweld sut mae'r Panel Dyfarnu yn gweithredu, ac yn bwysig i'r panel glywed achosion o'r fath er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd. Ystyriwyd yr adroddiad ar y penderfyniad i fod yn astudiaeth achos dda, ac yn ymarfer pwysig ar gyfer gofynion hyfforddiant y dyfodol.

Fe nodom hefyd fod y Panel Dyfarnu yn gallu oedi penderfyniadau am hyd at chwe mis, ynghyd â chyhoeddi gwaharddiadau.

Cawsom ein sicrhau bod y Cynghorydd Cawley wedi derbyn hyfforddiant, er bod toriad clir o'r Cod Ymddygiad wedi bod, a diffyg dealltwriaeth o natur sylfaenol y Cod.

Roedd y Panel Dyfarnu wedi pwysleisio bod y Cynghorydd Cawley wedi datgan buddiant yn rhan breifat y cyfarfod, yn hytrach na gwneud datganiad yn y cyfarfod cyhoeddus, gan ddangos camddealltwriaeth o'r Cod unwaith eto. Fe nodom mai cyfrifoldeb yr aelodau yw dilyn y Cod.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 20fed Mehefin, 2016 at 10.30 am**

Argymhellwyd tynnu sylw Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymunedol at y penderfyniad a wnaed gan y Panel Dyfarnu, sef, ar ôl clywed cynrychiolaeth gan y Cynghorydd Cawley a'r Ombwdsmon, fe benderfynodd y Tribiwnal Achos atal y Cynghorydd Cawley rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymunedol Magwyd a Gwyndy am gyfnod o 3 mis. Nid yw'r Cynghorydd Cawley wedi apelio'r penderfyniad.

4. **Cod Canllawiau Ymddygiad**

Fe gyflwynodd y Swyddog Monitro dau adroddiad er mwyn cynghori aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r cyfarwyddyd drafft diweddaraf a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru )"yr Ombwdsmon") i helpu aelodau etholedig ddeall Cod Ymddygiad Aelodau.

Argymhellwyd bod aelodau'n nodi cynnwys y cyfarwyddyd drafft.

Mae'r cyfarwyddyd wedi cael ei gynhyrchu i gymryd addasiadau diweddar i'r Cod Ymddygiad i ystyriaeth a adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ac a fabwysiadwyd gan y cyngor ar y 12fed o Fai 2016. Fe dderbyniodd aelodau dwy fersiwn o'r cyfarwyddyd, un ar gyfer cynghorwyr sir a'r llall ar gyfer cynghorwyr trefi a chymunedau.

Ystyrir y dogfennau cyfarwyddyd yn ddefnyddiol ac yn hawdd eu darllen, gan ddefnyddio esiamplau defnyddiol i esbonio diffiniadau o'r Cod.

Cawsom ein cynghori bod modd cael gafael ar y ddau gopi ar-lein. Bydd copi yn cael ei e-bostio at y 43 aelod etholedig, a bydd clercod trefi a chymunedau yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd.

Cytunwyd bod cyhoeddiad y cyfarwyddyd wedi dod ar adeg dda gyda'r etholiad nesaf ar y gweill, gan sicrhau bod aelodau'n gwbl ymwybodol o'r Cod Ymddygiad.

5. **Nodi amser a dyddiad y cyfarfod nesaf fel Dydd Llun 19 Medi, 2016 am 9.30**

Fe gytunom ar ddyddiad ac amser y cyfarfod nesaf, sef dydd Llun 19 Medi 2016 am 9.30am.

**The meeting ended at 11.20 am**